



Elusan Gofrestredig Rhif 507948

Y Casglwr

Argraffwyd gan Wasg Gwynedd Cibyn, Caernarfon, Gwynedd

CYMDEITHAS BOB OWEN
Tâl aelodaeth: £7.50 y flwyddyn
(Awst-Gorffennaf neu Ionawr-Rhagfyr) i'w anfon i'r Trysorydd

SWYDDOGION

Cadeirydd:

Dr Rhidian Griffiths
Llyfrgell Genedlaethol Cymru
Aberystwyth, Ceredigion

Ysgrifennydd:

Gwyn Tudur Davies
11 Maes yr Afon, Aberystwyth
Ceredigion SY23 1PL
(01970) 623174

Trysorydd:

Miss Anne K. Till
Tan-y-bryn, Llandre, Bow Street
Ceredigion SY24 5AD
(01970) 820235

Trefnydd Hysbysebion:

Gwilym Tudur
Siop y Pethe, Aberystwyth
Ceredigion
(01970) 617120

Golygydd:

Mel Williams
Tan-y-Castell, Llanuwchllyn
Y Bala, Gwynedd LL23 7TA
ebost:tanycastell@yahoo.com
(01678) 540652

Pwyllgor Gwaith y Gymdeithas:

Y Swyddogion

Dr Brynley Roberts

Dr Huw Edwards

Dafydd Jones

Dr R. Geraint Gruffydd

Dr E. Wyn James

Dafydd Glyn Lloyd Hughes

Rheinalt Llwyd

Huw Ceiriog Jones

Richard H. Lewis

Maredudd ap Huw

Deian ap Rhisiart

Y RHIFYN NESAF

Erthyglau a mân hysbysebion i'r **GOLYGYDD ERBYN IONAWR 18**

Neilltuo gofod hysbysebu i'r **TREFNYDD HYSBYSEBION ERBYN IONAWR 18**

Copi o'r hysbyseb i'r **GOLYGYDD ERBYN IONAWR 21**



Wasg Gwynedd

Cibyn, Caernarfon, Gwynedd LL55 2BD

Argraffwyr a Chyhoeddwyr

Ffôn: (01286) 674486

Gwasanaeth y Deillion

Mae'r gymdeithas uchod yn darparu tapiau llafar o erthyglau sy'n ymddangos yn y Casglwr i Danysgrifwyr y Gymdeithas. Am fwy o wybodaeth cysylltwch â **Miss Anne K. Till, 01970 820235.**

Bargeinion

The Secret Vale of Giamorgan £7.99 (yn lle £13.99)

The Dragon Entertains £8.99 (yn lle £12.99)

The Book of Welsh Saints £17.99 (yn lle £24.99)

100 Great Welshmen £13.99 (yn lle £18.99)

An A-Z of Wales and the Welsh £11.99 (yn lle £14.99)

Cludiant yn ychwanegol. Cysylltwch â'r golygydd.

Ceir anwau'r rhoddwyr yn y rhifyn nesaf.

Golygyddol

Yn ara bach rydym yn ceisio gwella'r ddarpariaeth ar gyfer yr aelodau, ac erbyn hyn mae rhai tudalennau'r Casglwr mewn lliw llawn. Mae'r ddwy Ffair Lyfrau wedi hen afael bellach, a'r babell yn yr Eisteddfod yn gorchfan adnabyddus. Hoffwn ddiolch hefyd i'r tanysgrifwyr a gefnogodd y raffl flynyddol. Bu'n llwyddiant ysgubol eleni ac mae'r cyfalaf ychwanegol yn fodd i wella'r cylchgrawn. Rhaid cofio bod *Y Casglwr* yn enghraifft prin iawn yng Nghymru heddiw o gylchgrawn nad yw'n derbyn yr un geiniog goch o grant, ac o'r herwydd gallwn gadw ein hannibyniaeth barn. Y flwyddyn nesaf mi fydd *Y Casglwr* yn dathlu chwarter canrif ers ei gychwyn. Tybed a oes gan rai ohonoch chi syniadau ar sut i ddathlu'r achlysur, a thua pa adeg o'r flwyddyn y dymunech i hyn ddigwydd? Mae yna fwriad hefyd i gyhoeddi rhifyn ychwanegol yn flynyddol.

Mae'r aelodaeth yn dal dros fil; fe sicrhodd John Roberts Williams hynny, ond pe byddem ni'n gallu chwyddo'r niferoedd i tua pymtheg cant

neu fwy, mi fyddai hynny'n sicrhau llwyddiant y Gymdeithas ac yn codi safon ac yn cynyddu'r darpariaethau. Dwi'n gofyn yn daer i bob aelod geisio **ennill un aelod eleni**. Pam na wnewch chi roi tanysgrifiad fel anrheg Nadolig, neu geisio gwneud i gyfaill ymuno yn lle benthyca copi. Syniad arall a allai fod yn hynod lwyddiannus fyddai sefydlu celloedd o'r Gymdeithas mewn gwahanol ardaloedd a chael gweithgaredd bob pythefnos, dyweder, i dynnu sylw'r cyhoedd at fodolaeth y Gymdeithas.

Mae'r *Casglwr* yn ceisio codi ymwybyddiaeth y cyhoedd at lyfrau, hanes lleol, a chasglu yn gyffredinol. Ac o grybwyll Hanes Cymru, trist yw clywed nad yw Coleg Prifysgol Aberystwyth wedi penodi darlithwyr i Adran Hanes Cymru i lenwi swyddi tri darlithydd a adawodd yn ddiweddar. Dywedodd y Prifathro fod yna wasgfa ariannol, ond be fyddai wedi digwydd pe na byddai'r rhain wedi symud? Ble mae'r arian ar eu cyfer nhw wedi mynd? Ceir

llyfrgelloedd Cymraeg Prifysgolion Cymru hefyd yn cael eu herydu a'u gwerthu, heb i'r cyhoedd wybod dim. Ond fe gawn fwy o sôn am hyn yn y dyfodol agos.

4 Allt Tŷ Gwyn
Rhoslannerchrugog
Wrecsam

Annwyl Olygydd

Amgaeaf bennill neu ddau i glodfori'r swyddogion:

Rhestr Swyddogion
y Gymdeithas

Swyddogion o Aberystwyth
Yw'r rhelyw ohonynt hwy,
Diolchaf fod un swyddog
yn byw o Fewn y pum plwy
sic.sic.

Cyhoeddiad Cymdeithas
Bob Owen

Uwchlaw i Lyn y Bala
Mae yna olygydd gwiw,
Yno, yn Nghan y Castell,
Y mae'r golygydd yn byw.

A'r 'Casglwr' yw y cylchgrawn
Dan ei olygyddiaeth ef:

Rwy'n diolch i'r Trysorydd
Mus Anne K. Till o Landref.
Gyda diolch
R.T. Jones

Rhiannon Davies Jones yn olrhain Hanes Plât Arch Bronfair

Tynnwyd fy sylw yn ddiweddar at hanesyn diddorol yn y sylwadau ar Bronfair yn y llyfr hynod o werthfawr, *Llanfair is my Dwelling Place*, a gynhyrchwyd gan Sefydliad y Merched (tudalen 69). Ceir yma ddyfyniadau yn ymwneud â thraddodiad llafar yr ardal yn gyforiog o'r gwirionedd a'r chwedlonol. Ceir yma gymysgedd o elfennau sydd yn gyfoeth o gof gwerin ac yn cyfannu dau ddigwyddiad yn yr ardal tua dau can mlynedd yn ôl. Yn gyntaf ceir y cyswllt rhwng Bronfair a'r teulu Owen, Crafnant, ac yn ail Stori'r Felltith yn Uwchartro.

Ond beth sydd a wnelo hanes Y Plât Arch â hyn oll? Mewn cyfnod a fu, caed yr arferiad o gadw plât arch yr ymadawedig yn y cartref. Gellid ei hongian fel addurn mewn ystafell gyda'r arysgrif yn wynebu'r mur. Gydag amser byddai'r arysgrif yn treulio fel mai prin y medrid ei ddehongli. Byddai'r merched yn rhoi sglein ar yr ochr oedd yn weladwy o'r Plât ac mewn cyfnod mwy diweddar yn defnyddio 'Brasso'. Mewn gair fe dyfodd i fod yn rhan o'r adeilad. Yn yr un modd gyda chyfnod o gan mlynedd roedd Plât Arch Lowry Owen, Bronfair, yn 'perthyn' megis i'r tŷ. Rywdro tua diwedd hanner cyntaf y ganrif ddiwethaf fe

ddaeth cyfnod y teulu Williams i ben yn Bronfair ac fe gododd y broblem ynglŷn â'r Plât Arch. Beth oedd i'w wneud ag o? Dyma oedd y geiriad arno:

'Lowry Owen, daughter of John and Elizabeth Owen of Crafnant. Died March 8th 1854. Aged 62 years.'

Fe gynigiwyd y plât i fy mam gyda'r esgus ein bod yn perthyn i deulu Crafnant. Mae'n wir bod Elin, chwaer fy nain, wedi priodi ag Ellis Jones a bod y Jonesiaid wedi sefydlu yng Nghrafnant ers rhai degawdau. Fe ddaethai cyfnod y teulu Owen i ben yno yn chwedegau'r bedwaredd ganrif ar bymtheg. Roedd fy mam yn ymhyfrydu yn ein perthynas â Chrafnant ac ni fedrai ond derbyn gwarchodaeth dros y Plât Arch. Fe ddywedwyd wrthym ar y pryd i'r Teulu Owen adeiladu Bronfair ar gyfer eu merch Lowry ac i'r tŷ gael ei gynllunio ar batrwm Crafnant. Ac felly daeth y Plât i'n meddiant i'w warchod am hanner can mlynedd arall yn Glynor, Llanfair. Doedd cael presenoldeb y Plât yn y tŷ ddim wrth yf modd ar y cychwyn. Paciais ef mewn trwch o bapur newydd a'i wthio belled ag oedd yn bosibl i ben draw y cwpwrdd gwydr tal oedd bron cyfuwch â'r nenfwd. O leiaf roedd o'r golwg yn y fan honno! Bùm yn

meddwl y gellid ei ddwyn yn ddirgel i fynwent Eglwys Llanfair a'i adael mewn rhyw gornel gudd yno. Ond amarch â Lowry Owen fyddai hynny ac fe allai gychwyn ymchwilio troseiddol.

Gydag amser fe ddechreuodd perthynas y gellid ei galw yn gyfriniol bron rhyngof i a Lowry Owen. Y cam nesaf yn yr hanes oedd hwn. Roedd f'ewyrth Rhys Jones, Siop Pentre Gwynfryn yn ymddiddori mewn hanes lleol ac yr oedd ganddo gasgliad gwerthfawr o hanesion prin. Rhoddodd ar fenthyg imi gopi o hen gylchgrawn o ail ran y bedwaredd ganrif ar bymtheg ac ynddo yr oedd erthygl ar neb llai na Lowry Owen, Bronfair, Llanfair. Credaf mai teitl yr erthygl oedd 'Gwellhad Gwyrthiol' ac mae'n sicr bod rhyw arwyddocâd arbennig i'r digwyddiad cyn y byddid yn cyflwyno'r hanes mewn print. Yn anffodus nid yw enw'r cylchgrawn gennyf nac ychwaith ddyddiad cyhoeddi'r erthygl. Byddwn yn falch iawn pe gellid dod i'r afael â'r wybodaeth hon yn y dyfodol agos. Craidd y mater yn ôl a gofiau oedd bod teulu Crafnant bryd hynny wedi mynd i'r gwasanaeth un bore Sul yn Eglwys Llanfair. Yna

(Parhad ar dudalen 18)